# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Canolfan Oasis y Bermo**

**Meithrinfa Oasis**
**Uned 7 Elephant Works**
**Heol y Parc**
**Y Bermo**
**LL42 1PH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Canolfan Oasis y Bermo wedi'i lleoli yng nghanol tref y Bermo.  Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 41 o blant rhwng 3 mis a 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8:00am a 5.45pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Carol Jones yw'r unigolyn cyfrifol, Liza Morris yw'r person â chyfrifoldeb am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, a Marie Pritchard yw'r dirprwy. Saesneg yw'r brif iaith er y cyflwynir rhai geiriau Cymraeg sylfaenol i'r plant ond, ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Digonol |
| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn brysur, wedi setlo'n dda ac yn cael gofal gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r staff yn ymatebol ac mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, maent yn datblygu dealltwriaeth o gynnydd unigol, ac yn datblygu ffyrdd newydd o gynllunio gweithgareddau ac olrhain cynnydd y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, gyda mesurau digonol ar waith i reoli risgiau posibl i ddiogelwch y plant.  Mae'r amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu priodol sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant. Mae'r arweinwyr wedi rhoi'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar adeg yr arolygiad diwethaf ar waith. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf:

- mae'r arweinwyr yn cynnig rhai cyfleoedd i'r staff gael goruchwyliaeth un i un;
- mae ffurflenni damweiniau a digwyddiadau cyn cael eu cwblhau;
- ceir mynediad clir at yr allanfeydd tân petai angen gadael y safle mewn argyfwng;
- mae'r ystafelloedd chwarae yn cynnig gweithgareddau chwarae a dysgu â mwy o bwyslais ac sy'n fwy amrywiol;
- mae'r arweinwyr wedi cwblhau Adnodd Archwilio Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru;

- mae'r staff wedi dechrau cofnodi pan fydd plant yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol penodol ac yn cofnodi rhai arsylwadau;
- mae system gweithwyr allweddol wedi cael ei chyflwyno;
- mae llawr newydd wedi cael ei osod drwy'r feithrinfa; a
- mae'r gwasanaeth yn aelod o raglen Gwobr Ysgol Werdd Coed Cadw.
- Ers yr arolygiad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno adolygiad o ansawdd y gofal, yn seiliedig ar farn y rhai hynny a oedd wedi defnyddio'r clwb gwyliau.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â hybu annibyniaeth, cadw cofnodion, darparu prydau iach, hybu ymddygiad cadarnhaol, yr amgylchedd a diweddaru dogfennaeth ofynnol.

## 1. Llesiant Digonol

**Crynodeb**

Mae'r plant yn hyderus i fynegi eu barn. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r rheini o'u cwmpas ac maent yn gwneud ffrindiau â'i gilydd. Maent yn brysur ac yn ymddiddori yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn cael budd o rai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth a gallant gwblhau tasgau drostynt eu hunain.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y staff yn gwrando ar y plant ac yn ymateb iddynt yn briodol, gan eu gwneud yn falch o'u cyflawniadau. Rhannodd y plant yr hyn roeddent wedi ei wneud ar ôl dysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Dangoswyd y llusernau, a oedd yn debyg i'r rhai a ddefnyddir yn ystod y dathliadau, i'r rhai hynny o'u cwmpas â balchder. Ar ôl iddynt eu dangos i'r rhai hynny o'u cwmpas, gwnaethant ofyn a allent eu sychu, cyn ymuno â'u ffrindiau i chwarae. Canmolwyd y plant am eu hymdrechion a chawsant eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau. Fe'u clywsom yn gofyn am weithgareddau penodol, fel llinynnu, a gofynnodd plentyn iau am deganau 'Peppa', a oedd yn golygu eu bod yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a bod eu barn a'u diddordebau yn cael eu hystyried.

Roedd y plant yn ymdopi'n dda gyda bod ar wahân i'w rhieni, gan fod ganddynt gydberthnasau agos â'r rhai hynny sy'n gofalu amdanynt ac maent yn gyfarwydd â'u hamgylchedd. Roedd y plant yn cael croeso cynnes wrth iddynt gyrraedd neu pan roeddent yn gweld staff nad oeddent wedi'u gweld eto yn ystod y dydd. Roedd llawer o gofleidio a gwenu ac roedd eu hymdeimlad o berthyn yn amlwg. Gwnaed i'r plant a oedd yno ar gyfer sesiynau setlo deimlo'n gyfforddus a rhoddwyd yr amser a'r sylw priodol iddynt fel eu bod yn gallu dod i adnabod y rhai hynny o'u cwmpas.

Roedd y plant yn gwneud ffrindiau ac yn dechrau dangos empathi tuag at ei gilydd. Fe'u gwelsom yn chwarae yn hapus, roedd rolau yn cael eu dirprwyo, ac roedd eraill yn cael eu gwahodd i ymuno â'u gêm. Er enghraifft, roeddent yn cydnabod bod y plant a oedd yn cyrraedd yn hwyrach yn ansicr ynglŷn ag ymuno â nhw ac felly gwnaethant fynd atynt yn ofalus ac esbonio iddynt beth oedd yn digwydd, gan awgrymu pa rôl y gallent eu cyflawni o bosibl. Gwnaethant gychwyn eu chwarae eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a phlant. Roedd ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at y profiadau a oedd ar gael iddynt ac roeddent yn cael eu cefnogi'n ddiogel i gymryd rhan mewn gweithgaredd a oedd o ddiddordeb iddynt.

Roedd y plant wedi ymgysylltu ar y cyfan ac yn dangos parch at eiddo. Pan roedd hi'n amser tacluso, roedd y rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan ac yn cadw'r adnoddau yn eu man priodol. Roeddent yn gyfarwydd â'r drefn, gan aros wrth y drws tan fod pawb yn barod i fynd trwyddo adeg prydau.

Gwnaeth y plant gymryd rhan mewn rhai cyfleoedd heriol; roedd rhai adnoddau wedi'u gosod gan y staff i annog y plant i feddwl yn feirniadol a'u hannog i ddatrys problemau. Er enghraifft, roeddent yn cael cymorth i ddefnyddio siswrn, ac roedd sgiliau echddygol manwl yn cael eu datblygu pan roeddent yn rhoi lasys drwy garden. Gwelsom luniau o'r plant yn mwynhau profiadau newydd, er enghraifft yn ystod 'wythnos y gwasanaethau brys', roeddent wedi gallu cael golwg y tu mewn i ambiwlans.

Roedd annibyniaeth y plant yn cael ei hyrwyddo weithiau. Roeddent yn gallu ymbaratoi ar gyfer yr ysgol eu hunain drwy wisgo eu cotiau a'u hesgidiau eu hunain; yn ystod amser byrbryd, gwnaethant helpu eu hunain i ffrwyth, ac roedd y plant iau yn bwydo eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd y plant yn arllwys eu diodydd eu hunain bob tro ac nid oedd pawb yn clirio eu platiau ar ôl iddynt orffen bwyta; weithiau, nid oedd y plant yn siŵr beth a ddisgwylir ganddynt.

## 2. Gofal a Datblygiad — Digonol

### Crynodeb

Mae'r staff yn rhoi rhai gweithdrefnau ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi eu hamser a'u sylw i'r plant ac yn canmol ymddygiad cadarnhaol. Maent yn rhoi rhai agweddau ar egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith ac maent yn datblygu ffyrdd newydd o gynllunio gweithgareddau ac olrhain cynnydd y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn datblygu eu dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau ac yn gweithio tuag at eu rhoi ar waith yn llawn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Roedd ffurflenni damweiniau a meddyginiaeth yn cael eu cwblhau ond nid oedd y rhieni yn eu llofnodi bob tro. Nid oedd yn glir bob amser pam roedd meddyginiaeth wedi cael ei rhoi ac nid oedd dogfennaeth yn drefnus iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, a oedd yn golygu y byddent yn gallu gofalu am y plant mewn argyfwng. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwybod pa broses i'w dilyn petai ganddynt bryderon am blentyn ac roedd bron pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu. Mae'r staff yn deall sut i reoli risgiau; gwelsom fod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau penodol, fel paentio, ac roeddent yn helpu'r plant i wisgo siacedi gwelededd uchel pan nad oeddent yn yr adeilad.

Roedd y staff yn mynd â'r plant am dro allan i'r awyr iach, ond nid oedd yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad, sy'n golygu nad oedd y plant yn cael y cyfle i gael cyfnodau estynedig yn yr awyr agored. Dangoswyd lluniau o'r plant yn chwarae yn yr awyr agored i ni. Roedd bwydlen a oedd yn cylchdroi bob pump wythnos ar gael ac mae'r staff yn rhoi rhai egwyddorion o ganllawiau arferion gorau Llywodraeth Cymru ar Fwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant ar waith. Roedd y staff yn lleihau'r risg o ledaenu heintiau drwy ddilyn y weithdrefn a argymhellir wrth newid cewynnau, ac roedd byrddau'n cael eu sychu cyn prydau bwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn golchi eu dwylo cyn prydau bwyd, ac roedd weips yn cael eu defnyddio i lanhau dwylo'r plant iau. Roedd y staff yn monitro'r plant a oedd yn cysgu yn agos gan eu bod yn cysgu mewn ardal dawel yn yr ystafell chwarae.

Roedd y staff yn ymatebol ac yn gwrando ar farn y plant, gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'r ffordd y mae datblygiad plant yn effeithio ar ymddygiad a gwnaethant drefnu i newid ac addasu'r gofal a ddarperir. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Roedd y staff yn rheoli ymddygiad negyddol, ond nid oeddent yn esbonio pam nad oedd ymddygiad penodol yn dderbyniol bob tro na pham ei fod wedi cael effaith andwyol ar blentyn arall. Nid oedd y staff yn cydnabod ymddygiad cadarnhaol drwy ei wobrwyo â phethau fel sticeri mwyach – y dull a ddefnyddir bellach yw gwobrwyo'r plant â chanmoliaeth.

Roedd y staff yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau. Roeddent yn rhannu syniadau ac yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer y mis canlynol. Roedd y staff yn gweithio tuag at allu cynllunio ar gyfer datblygiad unigol; roeddent wedi dechrau gwneud arsylwadau

ac yn nodi pan roedd y plant wedi cyrraedd cerrig milltir penodol. Roeddent yn cydnabod pan roedd gan y plant anghenion ychwanegol o bosibl, ac yn cymryd camau priodol i nodi pryd i ddarparu cymorth ychwanegol. Roedd y rhieni'n cael taflen wybodaeth ddyddiol i roi gwybod iddynt am yr hyn roedd eu plentyn wedi ei gyflawni yn ystod y dydd.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

**Crynodeb**

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r lle yn groesawgar ac mae digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw yn briodol ac mae dodrefn, teganau ac adnoddau addas ar gael.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn goruchwylio'r plant yn dda. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd rhestr wirio diogelwch ddyddiol gyffredinol yn cael ei chwblhau ac roedd y staff yn cofnodi unrhyw faterion diogelwch roeddent wedi'u nodi, ac roedd cofnod yn cael ei gadw o'r adeg yr aed i'r afael â nhw. Roedd cynlluniau ar gyfer gwacáu oherwydd tân yn amlwg yn yr adeilad, ond nid oedd ymarferion tân wedi cael eu cwblhau bob 6 mis o leiaf, fel yr argymhellir. Roedd asesiadau risg unigol wedi'u cwblhau ar gyfer gweithgareddau penodol. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg blynyddol o'r safle wedi cael eu cwblhau.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod digon o le yn yr amgylchedd i'r plant symud yn rhydd ac roeddent yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r plant. Roedd yn hawdd mynd i'r ardal chwarae yn yr awyr agored ond ni chafodd ei defnyddio yn ystod yr arolygiad. Gwelsom luniau o'r plant yn plannu yn ystod yr haf, ac roeddent wedi gwneud bwydwyr adar. Roedd yr arweinwyr wedi darparu sleid a chegin fwd, ynghyd ag adnoddau eraill, a oedd yn darparu amrywiaeth sylfaenol o brofiadau sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Ers yr arolygiad diwethaf, roedd newidiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud fel bod amrywiaeth o weithgareddau priodol yn yr amgylchedd dan do. Er enghraifft, roedd yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer y plant hŷn wedi'i threfnu i ddarparu gwahanol ardaloedd dysgu i'r plant ac roedd llawr newydd wedi cael ei osod drwyddi draw.

Roedd yr arweinwyr yn darparu dodrefn a theganau priodol i'r plant. Roedd yr arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd a oedd yn adlewyrchu arferion hylendid da. Roedd cofnod yn cael ei gadw yn nodi pryd roedd adnoddau penodol wedi cael eu glanhau, a oedd yn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r plant eu defnyddio. Roedd adnoddau'n cael eu storio o fewn cyrraedd hawdd i'r plant, a oedd yn eu galluogi i gael gafael ar yr hyn a hoffent eu hunain. Gwelsom y plant yn casglu'r hyn a hoffent o'r tybiau plastig a ddefnyddir ar gyfer storio. Roedd yr adnoddau a oedd ar gael yn cadw'r plant yn brysur. Mae'r staff yn defnyddio deunyddiau cynaliadwy ac yn helpu'r plant i ailddefnyddio eitemau mewn ffordd greadigol.
Yn ddiweddar, roedd y gwasanaeth wedi ennill y drydedd wobr mewn cystadleuaeth lle roeddent wedi creu iglw gan ddefnyddio hen boteli llaeth plastig.

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ceisio cefnogi tîm cadarn o staff sydd ag ymdeimlad o ddiben. Mae'r arweinwyr ar gael ac maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwasanaeth. Caiff y staff eu cefnogi ac mae gwelliannau ac argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gael ac mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gynigir.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ceisio darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y teuluoedd a'r gymuned. Maent yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau ac yn cadw eu datganiad o ddiben yn gyfredol. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol yn cael eu cadw a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod yr arweinwyr yn cefnogi'r tîm yn dda. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac roedd geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn cael eu cyflwyno i'r plant.

Roedd yr arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar adeg yr arolygiad diwethaf a chafodd nifer o welliannau eu nodi. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal ac roedd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn datblygu'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi bod yn gweithio gyda'r staff i gyflwyno ffordd newydd o gynllunio gweithgareddau y byddai'r plant yn cael budd ohoni. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwasanaeth ac mae pawb yn gweithio'n effeithiol fel tîm – roedd ethos cadarnhaol lle roedd y plant a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yr arweinwyr a'r staff yn rhannu eu blaenoriaethau a'r materion roeddent am eu gwella. Roeddent wedi casglu barn rhai o'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn eu galluogi i roi newidiadau cadarnhaol ar waith. Roedd holiaduron wedi cael eu dosbarthu yn electronig i rieni'r plant a oedd wedi mynychu'r clwb gwyliau, a chafodd adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau yn dilyn yr arolygiad.  Dylai'r unigolyn cyfrifol gasglu barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd proses recriwtio gadarn yn cael ei dilyn, ac roedd systemau da ar waith er mwyn sicrhau bod y gwiriadau addasrwydd gofynnol yn cael eu cwblhau. Roedd rolau'r staff a'r arweinwyr yn amlwg – roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn hyderus yn eu cyfrifoldebau ac yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am arweiniad a chymorth os oedd angen. Ers yr arolygiad diwethaf, mae gwaith goruchwylio sylfaenol ac arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal. Roedd yr arweinwyr wedi darparu ychydig o oruchwyliaeth unigol ac roedd y staff wedi cael eu cefnogi i gael hyfforddiant gorfodol. Roedd y staff yn cael eu defnyddio'n dda bob amser er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant.  Gwelsom ethos cryf o gydweithio, gyda threfniadau

cadarnhaol ar waith i gyflenwi absenoldebau staff, a oedd yn sicrhau nad oedd effaith ar lesiant y plant. Roedd y staff wrth gefn yn gweithio'n broffesiynol ac yn darparu gweithgareddau a gynlluniwyd yn dda, ac roeddent wedi nodi'r hyn roedd angen ei ddysgu.

Mae'r rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth a'r cynnydd y mae eu plant wedi'i wneud. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yn ystod y cyfnod setlo; roedd sesiynau setlo yn galluogi'r staff i gasglu gwybodaeth am ddewisiadau unigol y plentyn. Roedd gwybodaeth hanfodol ofynnol wedi cael ei chasglu mewn perthynas â'r plant sy'n cael gofal, ond nid oedd contractau na ffurflenni cydsynio wedi cael eu diweddaru, felly ni ellid sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfredol, y byddai ei hangen o bosibl mewn argyfwng. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar sut roedd eu plentyn wedi setlo a'u bod yn hapus cyhyd â bod eu plentyn yn hapus. Gwelsom y rhieni yn mynd at y staff yn hawdd i drafod trefniadau gofal plant, a oedd yn dangos cyfathrebu clir ac ymddiriedaeth.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- rhoi arweiniad clir i'r plant o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt adeg prydau bwyd;
- darparu cyfleoedd ychwanegol i'r plant gwblhau tasgau drostynt eu hunain;
- trefnu ffurflenni damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth;
- rhoi canllawiau bwyta'n iach ar waith yn llawn ar gyfer lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig;
- cefnogi'r plant ymhellach i ddeall eu hymddygiad a'i effaith ar eraill;
- datblygu'r arsylwadau a wneir ymhellach a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol i deilwra profiadau dysgu i nodi dysgu unigol;
- cwblhau ac adolygu asesiadau risg ar gyfer y safle
- cynnal ymarferion tân bob 6 mis o leiaf;
- datblygu'r ardal chwarae awyr agored;
- mae angen i'r unigolyn cyfrifol ystyried monitro ansawdd y gofal a gaiff y plant drwy sefydlu a chynnal system gadarn i gasglu barn pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- diweddaru contractau a ffurflenni cysdynio'r plant.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 15 Ionawr 2020 rhwng 9:35am a 5:40pm.

Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar yr adroddiad arolygu blaenorol a'r wybodaeth a roddwyd i AGC;
- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- edrych ar gofnodion datblygu'r plant;
- ffeiliau'r staff a'r plant;
- siarad â'r staff, y person â chyfrifoldeb ar y diwrnod, yr unigolyn cyfrifol, y plant a'r rhieni;
- archwilio'r amgylchedd; a
- rhoi adborth manwl i'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb dros y ffôn ar 16 Ionawr 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Carol Jones** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Marie Pritchard**<br>**Liza Morris** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **41** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis i 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8:00am a 5.45pm**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **15 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n cyflwyno geiriau Cymraeg sylfaenol i'r plant a'u teuluoedd. Gwnaethom argymell y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/07/2020